# Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

| | |
|---|---|
| **Teitl / Darn o waith:** | Papur Gwyn ar gyfer Bil y Gymraeg arfaethedig |
| **Rhif SF / LF cysylltiedig** (os yw'n berthnasol) | MA-L/ARD/0456/17 |
| **Enw'r swyddog:** | |
| **Adran:** | EPS |
| **Dyddiad:** | 26/06/2017 |
| **Llofnod:** | |

Byddwch cystal â chwblhau'r ffurflen hon a'i chadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Efallai y gofynnir ichi ddangos y ddogfen hon yn ddiweddarach i brofi eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i hawliau plant ee ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, i ddibenion monitro, neu fel gwybodaeth i'w hadrodd i'r Cynulliad.

Ar ôl ei gwblhau, dylech hefyd anfon copi o'r Asesiad ymlaen at Dîm Gweithredu'r Mesur at ddibenion monitro gan ddefnyddio'r blwch e-bost pwrpasol CRIA@cymru.gsi.gov.uk

Os nad yw swyddogion yn siŵr a ddylid llenwi'r Asesiad ai peidio, dylent weithredu rhag ofn a cheisio cyngor gan Dîm Gweithredu'r Mesur drwy anfon unrhyw gwestiynau i'n blwch negeseuon e-bost CRIA@cymru.gsi.gov.uk

Efallai yr hoffech groesgyfeirio'ch asesiad ag asesiadau eraill.

**Noder: Rhaid cyhoeddi pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a wneir ar gyfer deddfwriaeth gyda'r darn o waith perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru. O ran pob darn arall o waith, rhaid rhestru pob Asesiad yn ein Cylchlythyr Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant. Rhaid sicrhau bod y rhain ar gael ar gais. Caiff Gweinidogion eu hannog, fodd bynnag, i gyhoeddi pob Asesiad a gwblheir.**

# Chwe Cham at Sylw Dyledus




## Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant yn asesu effaith y cynigion polisi yn ein Papur Gwyn ar gyfer Bil y Gymraeg arfaethedig.

Yn ei Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio tuag at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I gyd-fynd â hyn, fe gyhoeddodd ei strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050*, sy'n rhoi braslun o'r gwaith y bydd angen ei wneud er mwyn gwireddu'r weledigaeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg. Oherwydd maint y weledigaeth ar gyfer y Gymraeg, mae'n hanfodol adolygu'r ddeddfwriaeth y tu ôl i'r iaith.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') sy'n cynnwys y prif fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer y Gymraeg. O dan y gyfraith hon, crëwyd hawliau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrff penodol drwy system  Safonau'r Gymraeg ('y Safonau'). Sefydlwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') i oruchwylio'r hawliau a'u gorfodi. Mae ein Papur Gwyn yn ceisio barn y cyhoedd ynghylch ein cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg.

Y prif amcanion polisi y tu ôl i'n cynigion yw:

- Taro'r cydbwysedd iawn rhwng hybua hwyluso defnyddio'r Gymraeg a gosod a gorfodi dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg; a
- Lleihau biwrocratiaeth a sicrhau gwerth am arian.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi cynigion sy'n ymwneud â'r trefniadau i hybu'r Gymraeg a sicrhau bod y seilwaith cywir ar waith i gyflawni hynny. Mae hefyd yn nodi ein cynigion o safbwynt y dyletswyddau a osodir ar gyrff mewn perthynas â'r Gymraeg (y Safonau ar hyn o bryd).

Mae'r prif gynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn fel a ganlyn:

- Dylid sefydlu Comisiwn y Gymraeg ('y Comisiwn') fel prif gorff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau;
- Dylid diddymu rôl Comisiynydd y Gymraeg;
- Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am strategaeth genedlaethol y Gymraeg, polisi cenedlaethol, rheoli rhai cyrff sydd o arwyddocâd cenedlaethol, a rhai meysydd gwaith

penodedig. Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r gyllideb a'r adnoddau ar gyfer gwaith penodedig arall y mae'n ei wneud ar hyn o bryd i hybu'r Gymraeg i'r Comisiwn ;

- Dylid cadw cysyniad o Safonau;
- Dim ond i wasanaethau y dylai'r Safonau fod yn berthnasol. Dylid galw dyletswyddau corfforaethol eraill sy'n rhan o system y Safonau ar hyn o bryd, nad ydynt yn creu hawliau gorfodadwy ar gyfer unigolion, yn 'ddyletswyddau cynllunio ieithyddol' a dylent fod yn ddyletswyddau statudol ar gyrff a nodir yn y ddeddfwriaeth;
- Dylid adolygu'r Safonau y mae gofyn i gyrff gydymffurfio â nhw o bryd i'w gilydd a, lle bo'n briodol, dylid gosod Safonau ychwanegol ar gyrff neu gael gwared ag eithriadau a ganiateir ar gyrff ar hyn o bryd;
- Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am greu a gosod Safonau ar gyrff, ac am gyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer. Dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau;
- Dylai fod yn ofynnol i'r cyrff eu hunain ddelio â chwynion mewn perthynas â'r Safonau yn y lle cyntaf. Dim ond mewn achosion difrifol y dylai'r Comisiwn ymchwilio i gwynion;
- Dylid cadw Tribiwnlys y Gymraeg (‘y Tribiwnlys’). Dylai cyrff allu apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn bwriad gan Lywodraeth Cymru i osod Safon arnynt;
- Dylid gallu cymhwyso'r Safonau i unrhyw gorff, cyn belled â bod y gofynion yn rhesymol ac yn gymesur ac o fewn pwerau’r Cynulliad (sy'n cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol).

Bydd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, a gaiff ei gynnal rhwng 9 Awst a 31 Hydref 2017, yn galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried sylwadau gan randdeiliaid er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth a chynnwys y ddeddfwriaeth honno.

**Cam 2. Dadansoddi'r effaith**

Byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn o fudd i ddinasyddion gan y byddent yn arwain at well seilwaith i hybu'r Gymraeg. Bydd y cynigion hefyd yn cael effaith wrth leihau'r fiwrocratiaeth sydd ynghlwm â system y Safonau a sicrhau bod modd unioni’r sefyllfa pan gaiff y Safonau eu torri. Bydd llai o fiwrocratiaeth hefyd yn arwain at sicrhau bod adnoddau ar gael i'r Comisiwn arfaethedig gynnal prosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion *Cymraeg 2050.*Yn benodol, bydd yn ofynnol ar y Copmisiwn i gefnogi cyrff i wella capasiti eu gweithlu i weithredu’n ddwyieithog, i wella ansawdd a chysondeb gwasanaethau Cymraeg, ac i gynyddu defnydd y gwasanaethau hynny.

Rydym hefyd wedi nodi'r prif effeithiau canlynol yn sgil ein cynigion:

- Eglurder wrth greu un safle ar gyfer cyngor a chymorth o ran y Gymraeg (er bod Llywodraeth Cymru'n cadw ei rôl mewn rhai meysydd fel y nodir yn y Papur Gwyn). Gallai'r eglurder hwn ei gwneud yn haws i blant, pobl ifanc a theuluoedd gael gwybodaeth ynghylch y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o gymharu â'r trefniadau presennol.
- Bydd yr arbedion sy'n codi o gael un corff yn gyfrifol am reoleiddio a hybu yn sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael i wneud y gwaith o hybu'r Gymraeg, a bydd y lleihad mewn biwrocratiaeth yn caniatáu i gyrff ganolbwyntio adnoddau ar wella gwasanaethau.
- Meithrin ewyllys da tuag at yr iaith a allai helpu i annog mwy o deuluoedd i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant a rhoi sgiliau Cymraeg i'r plant.
- Bydd y Comisiwn arfaethedig yn gallu defnyddio'r wybodaeth mae'n ei chasglu wrth fonitro cydymffurfiaeth cyrff â dyletswyddau o ran y Gymraeg er mwyn cymryd camau i hybu'r

Gymraeg a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir gan y cyrff hynny. Er enghraifft, gallai'r Comisiwn dalu sylw arbennig i ddeall profil sgiliau dwyieithog y gweithlu sy'n darparu gwasanaethau plant ar draws Cymru er mwyn helpu cyrff, gan gynnwys cyrff sy'n ymwneud a hyfforddiant, i gynllunio gweithlu yn fwy effeithiol. Gallai hyn helpu i sicrhau bod hawliau plant, pobl ifanc a theuluoedd i gael gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cefnogi'n fwy effeithiol nag o dan y trefniadau presennol.

- Bydd y gofyniad ar y Comisiwn arfaethedig i lunio cynllun strategol i ddangos sut bydd yn cyfrannu at gyflawni amcanion *Cymraeg 2050* (sy'n rhoi pwyslais sylweddol iawn ar anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd) yn sicrhau bod camau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cymryd.

**Dyletswyddau cynllunio ieithyddol**

Mae sicrhau twf a mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan hanfodol o wireddu *Cymraeg 2050*. Mae ein Papur Gwyn yn ystyried y posibilrwydd o gyfuno'r dull presennol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg (Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg) â'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol arfaethedig. Bydd y maes hwn yn destun gwaith datblygu polisi pellach ar ôl yr ymgynghoriad.

**Diwygio system Safonau'r Gymraeg**

Mae ein Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer diwygio system y Safonau'n raddol er mwyn sicrhau bod cyrff yn cynyddu eu capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, a hefyd fel ei bod yn eglur i'r bobl beth yw eu hawliau o ran defnyddio'r Gymraeg gyda chyrff penodol.

Nododd Llywodraeth Cymru bwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn *Mwy na geiriau…. Fframwaith Strategol dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.* Gallai ein cynigion ar gyfer symleiddio'r ffordd y mae system Safonau yn gweithio gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc drwy roi mwy o eglurder ar eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi ein cynigion i gael gwared â'r cyfyngiadau yn y Mesur o ran y mathau o gyrff y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â Safonau. Gallai hyn, ymhen amser, roi hawliau i bobl (gan gynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd) i ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau gan fwy o gyrff nag sy'n bosib ar hyn o bryd.

**Monitro llwyddiant**

Mae'r Papur Gwyn yn nodi ein cynigion o ran sut y gallwn ddarparu'r seilwaith i gefnogi'r gwaith i hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg. Bydd y ddau faes gwaith hyn yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i wireddu *Cymraeg 2050.* Bydd mesur llwyddiant y cynigion hyn felly'n gysylltiedig yn rhannol â monitro'r gwaith o gyflawni *Cymraeg 2050.* Bydd data meintiol sy'n dangos y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg hefyd yn cael eu defnyddio i fonitro llwyddiant ein cynigion.

**Sut mae'r cynigion yn ein Papur Gwyn yn cyfrannu at Strategaeth Tlodi Plant Cymru?**

*Cyflawni Amcan 2: Cynyddu sgiliau ymhlith rhieni a phobl ifanc; a*
*Cyflawni Amcan 3: Lleihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, trwy wella canlyniadau'r tlotaf.*

Datblygu sgiliau Cymraeg pobl ifanc drwy gyfrannu at gyflawni'r twf mewn addysg cyfrwng

Cymraeg sy'n rhan allweddol o wireddu *Cymraeg 2050.* Fel y nodir uchod, mae'r Papur Gwyn yn trafod y posibilrwydd o gyfuno proses y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg â’r dyletswyddau cynllunio ieithyddol arfaethedig. Bydd y maes hwn yn destun gwaith datblygu polisi pellach ar ôl yr ymgynghoriad.
Yn ogystal, rydym yn disgwyl y bydd cynnydd sylweddol yn y gofyn am sgiliau Cymraeg yn y gweithlu fel canlyniad i’r Safonau a’r ffyrdd arfaethedig o sicrhau bod gallu cyrff i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn gwella dros amser. Rydym yn disgwyl mai prif ffynhonell y sgiliau hyn fydd drwy recriwtio a bydd hyn yn cynnig cyfleon newydd i bobl ifanc sy’n ymuno â’r gweithlu am y tro cyntaf.

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

*Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.*

Fel rhan o'n gwaith trafod sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad hwn byddwn yn holi plant, pobl ifanc a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli.

*Erthygl 30 – Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.*

- Fel y nodir o dan gam 2 yr asesiad effaith hwn, mae ein Papur Gwyn yn trafod y posibilrwydd o gyfuno proses y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg â'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol.
- Ein bwriad yw y byddai Comisiwn y Gymraeg arfaethedig yn ymgymryd â gwaith i hybu a sicrhau cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol, yn y coleg, yn y gymuned, yn y cartref ac yn bennaf, efallai, yn y gweithle. Bydd y gofyn am sgiliau Cymraeg yn y gweithlu yn cynnig cyfleoedd penodol i bobl ifanc a thuluoedd sydd â sgiliau yn y Gymraeg. Gallai ein cynnig i sefydlu Comisiwn gyfrannu, felly, at yr Erthygl hon.
- Gallai'r eglurder pellach o ran hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrff o dan system y Safonau o gymharu â'r trefniadau presennol ei gwneud yn fwy eglur i bobl pa wasanaethau mae angen i gyrff eu darparu yn y Gymraeg. Gallai hyn ei gwneud yn haws i blant dderbyn gwasanaethau Cymraeg.

## Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Wrth wneud yr asesiad hwn, ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar blant, pobl ifanc na'u teuluoedd yn sgil ein cynigion. Ni nodwyd unrhyw wrthdaro ychwaith rhwng y polisi yn y Papur Gwyn ac Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Rydym wedi nodi'r manteision posib i blant, pobl ifanc a theuluoedd a allai godi o'n cynigion yn y Papur Gwyn. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, byddwn yn casglu sylwadau ynghylch y meysydd lle gellid cryfhau ein polisi i hyrwyddo hawliau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ymhellach, gan roi sylw dyledus i'r sylwadau hyn.

**Cynnal trafodaethau ynghylch ein cynigion â phlant, pobl ifanc a theuluoedd**
Rydym yn cydnabod pwysigrwydd trafod â phlant a phobl ifanc. Fel rhan o'r gwaith trafod â rhanddeiliaid a fydd yn digwydd ar yr un pryd â'r ymgynghoriad ysgrifenedig, byddwn yn trefnu digwyddiadau penodol i sicrhau ein bod yn gwrando ar farn plant a phobl ifanc. Yn ogystal â hyn, rydym wedi llunio crynodeb byr a syml ei iaith o'r Papur Gwyn a fydd yn helpu'r cyhoedd a phobl ifanc i ddeall ein cynigion. Rydym yn bwriadu

gweithio gyda'n partneriaid fel y Mentrau Iaith a'r Urdd i ddefnyddio'r fersiwn hon o'n cynigion i ennyn diddordeb pobl ifanc..

## Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr Asesiad hwn fel rhan o'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn. Bydd copi'n cael ei gadwfelrhan o'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig ag ymgynghoriad y Papur Gwyn. Byddwn hefyd yn cyhoeddi'r Asesiad hwn ochr yn ochr â'r Papur Gwyn, fel y gall y rhanddeiliaid ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad.

Bydd unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn y dyfodol yn rhan o'r dystiolaeth y bydd Llywodraeth Cymru'n ei hystyried wrth ddatblygu deddfwriaeth yn y dyfodol, a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Bydd yr Asesiad hwn yn cael ei adolygu wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd yr effaith bosib ar blant a phobl ifanc yn parhau i gael ei hasesu drwy gydol y cyfnod datblygu polisi, a bydd Asesiad pellach o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gynnal i lywio'r gwaith o ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei chyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cyllidebau**

| | |
|---|---|
| **A oes unrhyw ddyraniadau cyllid yn gysylltiedig â'r darn hwn o waith?** | **Nac oes** |
| **A fedrwch nodi faint o'r gyllideb hon a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer plant a phobl ifanc?** | **Na fedrwn** |
| Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau neu arbedion ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. **A nodwyd unrhyw wariant ychwanegol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i gyfrannu at y gwaith hwn ac i ddweud eu dweud? Os oes, faint?** | **Naddo** |

**Rhowch unrhyw fanylion:**

Nid oes unrhyw ddyraniad cyllid penodol yn gysylltiedig â chynnal yr ymgynghoriad ar ein cynigion

yn ein Papur Gwyn.

Bydd unrhyw gostau a fydd yn codi o gynnal y gweithgareddau trafod yn ein cynllun cyfathrebu (gan gynnwys y rhai sy'n targedu plant a phobl ifanc) yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

**Monitro ac Adolygu**

| | |
|---|---|
| **A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?** | Oes, fel rhan o'r gwaith o ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r gwaith datblygu polisi parhaus. |
| **Os yw'n berthnasol: nodwch y dyddiad adolygu** | Gaeaf 2017/18 |

Anfonwch gopi o'r Asesiad hwn i **CRIA@cymru.gsi.gov.uk** at ddibenion monitro

**Gweler y dudalen nesaf am restr gryno o Erthyglau CCUHP**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y'u rhestrwyd yn y confensiwn.

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a daeth i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn yr CCUHP a'i brotocolau dewisol.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymdrin ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:
Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru:
**www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Clic - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol Bobl Ifanc:
**www.cliconline.co.uk/cym/newyddion**

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:
**http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents**

## Erthygl 1
Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

## Erthygl 2
Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

## Erthygl 3
Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

## Erthygl 4
Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

## Erthygl 5
Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

## Erthygl 6
Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

## Erthygl 7
Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddynt.

## Erthygl 8
Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu.

## Erthygl 9
Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

## Erthygl 10
Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddod at ei gilydd fel teulu.

## Erthygl 11
Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

## Erthygl 12
Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

## Erthygl 13
Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.

## Erthygl 14
Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.

## Erthygl 15
Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

## Erthygl 16
Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

## Erthygl 17
Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

## Erthygl 18
Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

## Erthygl 19
Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.

## Erthygl 20
Rhaid i bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith edrych ar ôl plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.

## Erthygl 21
Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhwyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

## Erthygl 22
Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

## Erthygl 23
Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

## Erthygl 24
Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

## Erthygl 25
Dylai sefyllfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

## Erthygl 26
Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

## Erthygl 27
Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.

## Erthygl 28
Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

## Erthygl 29
Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dyl
annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

## Erthygl 30
Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.

## Erthygl 31
Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o
weithgareddau.

## Erthygl 32
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amhar
ar eu hiechyd neu eu haddysg.

## Erthygl 33
Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau peryglus.

## Erthygl 34
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.

## Erthygl 35
Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaiff plant eu cipio neu eu gwerthu.

## Erthygl 36
Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

## Erthygl 37
Ni ddylid trin plant sy'n torri'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni.

## Erthygl 38
Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. D
plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

## Erthygl 39
Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbenni
adfer eu hunan-barch.

## Erthygl 40
Dylai plant a gyhuddir o dorri'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio dedfrydau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

## Erthygl 41
Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'
Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

## Erthygl 42
Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.